# Rhoi ceffyl ar ffrwyn hir o dan oruchwyliaeth

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â rhoi ceffyl ar ffrwyn hir o dan oruchwyliaeth. Bydd hyn yn cynnwys rhoi ystod o geffylau ar ffrwyn hir.

Byddai'r gwaith a ddisgrifir yn y safon hon yn cael ei wneud yn dilyn cytundeb gyda goruchwylydd am gyfrifoldebau a dulliau gweithio.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn

Bydd angen i chi allu adnabod peryglon yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. gwirio bod yr ardal yn addas ar gyfer ymarfer ceffylau ar ffrwyn hir a chymryd y camau priodol os nad ydyw
3. mynd at y ceffyl yn unol â'r cyfarwyddiadau ac mewn ffordd sy'n lleihau straen ar y ceffyl, a pherygl i chi eich hun ac i eraill
4. gwirio bod y ceffyl mewn cyflwr addas i gael ei roi ar ffrwyn hir
5. dewis, gwirio a gosod harneisiau ac offer ffrwyn hir addas, o dan oruchwyliaeth
6. cadw rheolaeth dros y ceffyl bob amser, sy'n briodol i'r amodau
7. defnyddio dulliau priodol i roi'r ceffyl ar ffrwyn hir, o dan oruchwyliaeth
8. tynnu a storio harneisiau ac offer ceffylau yn gywir
9. cynnal eich iechyd a'ch diogelwch chi ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. eich rôl a'ch cyfrifoldebau ar gyfer rhoi ceffylau ar ffrwyn hir ar gyfer ymarfer
3. y rhesymau dros roi ceffylau ar ffrwyn hir
4. sut i fynd at geffylau mewn ffordd briodol er mwyn lleihau straen a pherygl i chi eich hun ac i eraill
5. sut i wirio bod y ceffyl yn addas i gael ei roi ar ffrwyn hir, ac adnabod arwyddion salwch, cloffni neu anaf, fyddai'n effeithio ar les y ceffyl pe byddai'n cael ei weithio
6. y mathau a'r defnydd o harneisiau ac offer ceffylau yn cynnwys penwar a ffrwyn hir
7. y gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â rhoi ceffylau ar ffrwyn hir
8. y dulliau gwahanol o ddefnyddio ffrwyn hir yn dibynnu ar y defnydd a fwriedir ar gyfer y ceffyl
9. sut i gadw rheolaeth dros y ceffyl bob amser
10. y ffyrdd y mae'r amodau, fel y tywydd, arwyneb a cheffylau eraill yn effeithio ar y broses o roi ceffyl ar ffrwyn hir
11. yr amser y gellir rhoi ceffyl ar ffrwyn hir a pham y mae hyn yn bwysig
12. peryglon i geffylau, i chi eich hun ac i eraill a sut y gellir lleihau'r peryglon hyn
13. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

Rhoi ceffyl ar ffrwyn hir o dan oruchwyliaeth

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq211 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; ffrwyn hir; iechyd a lles anifeiliaid; harneisiau |